# Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

**2018 dccc 3**

*Cydsyniad Gweinidogion Cymru i is-ddeddfwriaeth sydd o fewn cwmpas cyfraith yr UE*

## 16 Dyletswydd i adrodd ar arfer swyddogaethau o dan adrannau 14(1) a 15(1)

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar arfer eu swyddogaeth cydsyniad o dan adran 14(1) neu 15(1) cyn diwedd cyfnod o 60 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir cydsyniad.

(2) Rhaid i adroddiad a lunnir o dan is-adran (1)—

- (a) rhoi esboniad o'r is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud, ei chymeradwyo neu ei chadarnhau;
- (b) pennu'r person y mae'r swyddogaethau o wneud, cymeradwyo neu gadarnhau'r ddeddfwriaeth wedi eu rhoi iddo;
- (c) pennu rhesymau Gweinidogion Cymru dros roi'r cydsyniad.

(3) At ddibenion is-adran (1), nid oes unrhyw ystyriaeth i'w rhoi i unrhyw amser pan yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 16 mewn grym ar 7.6.2018, gweler **a. 21**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/06/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cyfraith sy’n Deillio o’r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018, Adran 16.